

Cyngor Cymuned Llanfihangel-yng-Ngwynfa

Munudau cyfarfod nos Lun, Medi 21ain, 2020,
am 7.30yh, drwy Alwad Cynhadledd dros y ffôn

Preseanol: Cr Ifan Owen (Cadeirydd), Cr Alan Broughall, Cr Emyr Jones, Cr Fiona Montague, Cr Llion Jones
Cr Paul Jenkins a'r Cr Geraint Gittins

Ymddiheuriadau (079)

Dim

Datganiad o ddiddordeb (080)

Cr Ifan Owen - Cynllunio 20/0918/HH

Munudau (081)

CYTUNWYD i dderbyn munudau cyfarfod yr 20fed o Orffennaf 2020 fel cofnod cywir.

Materion yn codi o'r munudau blaenorol (082)

Cerrig cwrbin yn y Fynwent (070) - **CYTUNODD** y Cyngor i beido â chymryd camau pellach ynglŷn a'r cerrig cwrbyn newydd a osodwyd yn y Fynwent gan nad oedd y gorchymyn sy'n rhwystro eu gosod wedi ei hysbysu'n glir. (Maent i'w gweld yn awr ar yr ysbysfwrdd newydd). **Gweithred y Clerc - i gysylltu â Mrs AG Evans**

Adroddiad y Cadeirydd (083)

Dim

Adroddiad y Cynghorydd Sir (084)

Dim

Toiledau (085)

Clywodd y Cyngor fod y toiledau ym mhentrefi Dolanog a Llanfihangel wedi cael eu glanhau yn drylwyr iawn. Mi fydd hylif saniteiddio dwylo yn cael eu gosod yn y toiledau, gan gynnwys y "Portaloo", gydag arwyddion yn annog pobl i olchi eu dwylo yn drylwyr. **Gweithred y Clerc**

Gohebiaeth (086)

Cyfarwyddiadau ar sut i gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb. Gyda newidiadau yn sefyllfa'r feirws, rhaid gadael y cyfarwyddiadau hyn am y tro, nes bydd yr amodau yn newid ac yn dychwelyd i'r hyn a fu.

Adolygiad o'r gofrestr o asedau ac asesiadau risg (087)

CYTUNODD y Cyngor i dderbyn rhain, fel y cawsant eu cyflwyno.

Ceisiadau am grantiau 137 (088)

Gwahoddir geisiadau am grantiau 137 am y flwyddyn 2021/22. Gellir cael y ffurflenni cais gan y Clerc neu eu lawrlwytho oddi ar y safle we. Rhaid sicrhau bod y ceisiadau yn nwylo'r Clerc erbyn yr 31^{ain} o Hydref 2020.

(Mae adran 137(1) o Ddeddf 1972 yn caniatáu i Gyngor Cymuned wario ar weithgareddau nad oes ganddo unrhyw bwerau penodol eraill ar eu gyfer os yw'r Cyngor o'r farn bod y gwariant er budd yr ardal, neu unrhyw ran ohoni, neu'r cyfan o'i thrigolion ac y bydd yn dod â budd uniongyrchol iddi, ar yr amod bod y budd-dal yn gymesur â'r gwariant. Hefyd, caniateir i Gynghorau Cymuned, o dan adran 137(3), gymryd cyfrifoldeb am wariant at ddibenion elusennol penodol a dibenion eraill.)

Cyllid (089)

Ffigyrau cyfriflenni'r: Cyfrif Cyfredol: £10,919.09
Cyfrif Cadw: £11,970.68

Incwm:

Wayleave (Manweb) £19.46
Praesept £4667.00

Taliadau:

Cyflog a chostau'r Clerc £155.68 (BACS)
Cyllid a thollau PAYE £38.20 (BACS)
OZLOOS (Awst) £48.00
Opus Energy (Awst) £12.70
Gareth Thomas (toriad Gorff) £192.00
Gareth Thomas (toriad Awst) £384.00
Opus Energy (Medi) £12.85
Hafren Dyfirdwy (Llanfihangel) £158.92
Saxon Cleaning (Llanfihangel/Dolanog) £30.00

CYTUNODD y Cyngor y dylid anrhydeddu'r anfonebau a thaliadau hyn.

Cynllunio (090)

20/1306/HH - Cynlluniau arfaethedig i ddymchwel rhan o feudy cyfagos a chodi estyniad i lawr cyntaf (ail gyflwyno 20/0129/HH) yn Glan y Rhyd, Llangadfan, Y Trallwng, SY21 0NG. **CYTUNODD** y Cyngor i gefnogi'r cais.

Nid oedd y Cr Owen yn rhan o'r drafodaeth. Cymerwyd y gadair gan y Cr Montague:

20/0918/HH - Dymchwel y portsh presennol ac adeiladu portsh mwy yn Brynhyfryd,

Priffyrdd (091)

Clywodd y Cyngor y bydd y peiriant "trwsio tyllau yn y ffyrdd" yn gweithio ar ffyrdd ardal Cyngor Cymuned Llanfihangel dros yr wythnos i ddod. Clywodd y Cyngor hefyd fod peirianyddion am ddod allan i gynnal arolwg ar y ochr y ffordd ar yr U2117.

Gwybodaeth i'r aelodau (092)

Gofynnwyd i osod y materion hyn ar agenda'r cyfarfod nesaf:

- Darpariaeth gwasanaethau
- Cerbydau 4x4 yn gyrru i lawr yr afon. **Gweithred y Clerc**

CYTUNODD y Cyngor i gynnal y Cyfarfod Blynnyddol, i'w ddilyn gyda'r cyfarfod arferol, nos Lun, 19^{ed} o Hydref 2020 am 7.30yh, drwy Alwad Cynhadledd dros y ffôn.

Arwyddwyd (Cadeirydd) Dyddiad.....